

PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL

DYDD MERCHER, 5 MEHEFIN 2019

Yn Cynghorydd Jenkins(Cadeirydd)

bressenol:

Cynghorwyr McGarry, Carter, Gibson, Goddard a/ac Lent

1 : PENODI CADEIRYDD AC AELODAU'R PWYLLGOR

Yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mai 2019, penododd y Cyngor y Cynghorydd Shaun Jenkins yn Gadeirydd a'r Aelodau canlynol i'r Pwyllgor hwn:

Y Cynghorwyr Ali Ahmed, Carter, Gibson, Goddard, Lent, McGarry a Naughton (1 swydd wag)

2 : CYLCH GORCHWYL

Craffu ar, mesur a hybu gwelliant ym mherfformiad y Cyngor wrth ddarparu gwasanaethau a chydymffurfio â pholisïau, nodau ac amcanion y Cyngor ym maes gwasanaethau cymunedol ac oedolion, gan gynnwys:

- Tai Cyhoeddus a Phreifat
- Grant Cyfleusterau i'r Anabl
- Diogelwch Cymunedol
- Adnewyddu Cymdogaethau a Chymunedau Nesaf
- Cyngor a Budd-daliadau
- Amddiffyn Defnyddwyr
- Strategaeth Pobl Hŷn
- Gofal Cymdeithasol i Oedolion
- Gwasanaethau Gofal Cymunedol
- Iechyd Meddwl ac Anableddau Corfforol
- Strategaeth Comisiynu
- Partneriaeth Iechyd

Asesu effaith ein partneriaethau â sefydliadau allanol, adnoddau a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, gwasanaethau llywodraeth leol ar y cyd, Cyrff Cyhoeddus dan Nawdd Llywodraeth Cymru a chyrff lled-adrannol anllywodraethol a gwasanaethau iechyd ar effeithiolrwydd gwasanaethau'r Cyngor.

Adrodd y canfyddiadau yn y cyfarfod Cabinet neu Gyngor perthnasol a rhoi argymhellion ynghylch mesurau a all wella perfformiad y Cyngor a'i wasanaethau yn y maes.

Gweithredu fel Pwyllgor Trosedd ac Anrhefn y Cyngor yn ôl Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 ac unrhyw ailddeddfiad neu ddiwygiad ohoni; ac fel dirprwy i'r Cyngor, arfer ei bwerau a'i swyddogaethau a ganiateir dan y Ddeddf.

3 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Ed Stubbs.

4 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafwyd unrhyw rai.

5 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod Pwyllgor Craffu'r Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion a gynhaliwyd ar 1 Mai 2019 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

6 : SUT MAE'R CYNGOR YN YMGYSYLLTU Â CHYMDEITHASAU TAI

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr eitem hon yn cynnwys briff ar sut mae'r Cyngor yn ymgysylltu â Chymdeithasau Tai ar hyn o bryd.

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau y byddai'r eitem agenda hon yn cael ei hystyried mewn pedair rhan - yn gyntaf, byddai swyddogion a'r Aelod Cabinet yn rhoi cyflwyniad byr i'r Pwyllgor; yna byddai tystion o Gymdeithasau Tai Caerdydd yn cael eu galw mewn dwy sesiwn ar wahân i roi eu barn i'r Pwyllgor am y berthynas a fydd wedyn yn cael ei dilyn gan sesiwn Holi ac Ateb gyda'r Aelod Cabinet a Swyddogion.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Lynda Thorne (Aelod y Cabinet dros Dai a Chymunedau) Jane Thomas (Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Tai a Chymunedau); a David Jadril (Rheolwr Datblygu Tai).

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad lle dywedodd ei bod yn croesawu'r gwaith craffu ar yr eitem hon; credai fod gan y Cyngor berthynas gadarnhaol gyda'r Cymdeithasau Tai ac y byddai'n hapus pe byddai unrhyw feysydd ar gyfer gwella yn cael eu nodi.

Rhodddwyd cyflwyniad i'r Aelodau ar berthynas y Cyngor â'r Cymdeithasau Tai.

Croesawodd y Cadeirydd Andrew Bateson o gymdeithas Cadwyn, Hayley Selway o Gymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd; a Scott Sanders a Louise Attwood o Linc Cymru. Gwahoddodd y Cadeirydd bob tyst i wneud datganiad.

Dywedodd Scott Sanders fod y tîm yng Nghyngor Caerdydd wedi buddsoddi amser ac arian mewn ffordd ddarvoudus, eu bod yn chwilwyr atebion a'u bod bob amser yn chwilio am gyfleoedd i gydweithio; o ran datblygiadau maent yn gosod y Cymdeithasau Tai cywir yn y datblygiadau tai cywir; â gyda materion tai mae ganddynt sefyllfa gytbwys iawn yn y maes tai ar draws y ddinas ac fe'i rheolwyd yn dda gan y tîm. Ychwanegodd fod y berthynas sydd gan swyddogion y Cyngor â Llywodraeth Cymru yn bwysig iawn i'r Cymdeithasau Tai; mae strategaethau'r Cyngor yn glir iawn ac yn hawdd eu cyrraedd; croesawyd y Strategaeth Pobl Hŷn yn fawr; mae Linc Cymru wir yn teimlo ei bod yn gydradd ac yn rhan o bob sgwrs.

Nododd Louise Attwood ei bod yn gweithio'n agos gyda swyddogion yn y rhaglen ddatblygu; Mae gan Linc lawer o stoc tai yng Nghaerdydd ac mae'n gobeithio ei ddyblu yn y blynyddoedd i ddod. Mae Linc hefyd yn rhedeg cartrefi nyrsio felly mae ganddynt gysylltiad â gofal cymdeithasol, a byddent yn croesawu mwy o gydweithio drwy'r cynllun gofal ychwanegol. Mae Linc yn edrych ymlaen at gymryd mantais o lithiant ac ychwanegu mathau o ddeiliadaeth, gan ddweud ei bod yn bwysig darparu

cymunedau cymysg. O ran protocol tir, yr oedd potensial i ddarparu 250 o gartrefi ac mae'r Ymddiriedolaeth yno i alluogi hynny i ddigwydd.

Nododd Andrew Bateson ei fod yn adleisio'r berthynas gadarnhaol gyda'r cyngor ac yr oedd yn ei ystyried yn bartner strategol, yn enwedig o ran darparu cymorth strategol. Roedd o'r farn bod y gefnogaeth a roddwyd gan yr Awdurdod Lleol yn amhrisiadwy a bod y berthynas yn allweddol. Amlinellodd heriau fel yr adolygiad strategol o dai, a oedd yn aros am argymhellion ategol gan Lywodraeth Cymru. Roedd o'r farn bod y ffocysau wedi bod yn fuddiol iawn ac yn werth chweil i denantiaid. O ran digartrefedd, roedd o'r farn bod y bartneriaeth â'r Awdurdod Lleol wedi helpu Tai yn Gyntaf i fod yn gymaint o lwyddiant ac y byddai'n dymuno gweld mwy o hyn.

Nododd Hayley Selway fod gan Gymdeithas Tai Cymuned Caerdydd berthynas gref iawn â'r awdurdod lleol, yn enwedig gyda nifer o byrth megis y Porth Pobl Ifanc. Ychwanegodd fod y Gymdeithas yn datblygu ac mai adfywio trefol yw un o'i arbenigeddau; dim ond gyda chymorth swyddogion yr awdurdod lleol y cyflawnwyd amldeiliadaeth. O ran Pobl Hŷn, roedd y Gymdeithas gynt wedi rheoli'r Gofrestr Tai Hygyrch nes iddi eistedd yn well o fewn y Cyngor gyda gweithredu'r Strategaeth Pobl Hŷn. Mae'r Gymdeithas yn buddsoddi ei harian ei hun i ddatblygu cartrefi i bobl hŷn; maent yn gweithio'n agos gyda'r awdurdod lleol mewn perthynas â diwygio lles; cyfrannu at yr agenda cyflogaeth a sgiliau gyda chyllid craidd a chynlluniau sy'n cael eu hariannu'n allanol. Mae'r Gymdeithas yn buddsoddi'n sylweddol mewn Adfywio Cymunedol a chafodd enghraifft o brosiect Ffynnu ei amlinellu sy'n ymwneud â Thlodi Wrth Weithio. Nodwyd yr heriau a rannwyd gyda'r Cyngor fel yr angen am fwy o lety ar y llawr gwaelod, lifftiau mewn blociau o fflatiau i'w helpu gydag unigedd, plant mewn tlodi, rhenti uchel/gwerthoedd uchel a'r mater pwysig o iechyd meddwl gan gynnwys achosiaeth ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau:

Cyfeiriodd Aelodau at sefydliad Cadwyn a'r angen am fwy o adnoddau ar gyfer cymorth dwys a gofynnwyd iddynt ble y byddent yn chwilio am yr adnoddau ychwanegol. Dywedodd Andrew Bateson, mewn perthynas â Tai yn Gyntaf, mai eiddo yw'r darn hawdd, y gefnogaeth yw'r her a'r ateb yw gweithio ar y cyd.

Dywedodd yr Aelodau fod y darlun wedi bod yn un cadarnhaol, ond gofynnwyd beth allai'r Cyngor ei wneud yn well a beth oedd y cyfleoedd ar gyfer datblygu. Dywedodd Louise Attwood fod y Cyngor eisoes yn argymhell meysydd y gallant eu gwella. O ran protocol tir, roedd mwy o gydnabyddiaeth nad yw Derbyniad Cyfalaf uwch o reidrwydd yn rhoi'r gwerth gorau. Roedd o'r farn y byddai cyflymu'r broses protocol tai yn fuddiol ac y byddai mwy o eglurder ynglŷn â chartrefi a gofynion hygyrch yn helpu i ddarparu cartrefi i Gaerdydd.

Amlinellodd Scott Sanders mai'r meysydd i'w gwella oedd cyflymdra'r broses gynllunio, yn enwedig o amgylch adran 106; rhenti canolradd/rhenti fforddiadwy a lwfans tai lleol, gan edrych ar ba mor fforddiadwy yw Caerdydd.

Dywedodd Hayley Selway y gallai fod mwy o gyfleoedd i lobio Llywodraeth Cymru.

Gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth am Newlife a dywedwyd wrthynt mai prosiect uwchgyrchu/adnewyddu ac ailgyrchu dodrefn ydyw. Gellid darparu mwy o wybodaeth i'r Aelodau dros e-bost.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurder ar adroddiad Linc a'r datganiad a oedd yn dweud y byddai'n fuddiol pe bai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn cael eu cynnwys yn y geiriad ar gyfer adran 106. Dywedwyd wrth yr Aelodau ei bod yn hanfodol i'r Cymdeithasau Tai allu benthyca yn erbyn yr eiddo; os ydynt yn ymwneud â drafftio'r adran 106, gallent osgoi gorfod newid hyn yn ôl-weithredol a oedd yn gyfreithiol ac yn llafurus, fel datblygwr trydydd parti a pherchennog yr ased y dylent fod yn rhan o'r gwaith o ddrafftio'r geiriad ar gyfer y s106.

Gofynnodd yr Aelodau sut y caiff risg ei rheoli mewn perthynas â thai pobl ag ymddygiad gwrthgymdeithasol neu bobl sy'n gadael carchar. Dywedwyd wrth yr Aelodau nad oes dyletswydd i gartrefu'r rhai sy'n gadael y carchar mwyach, ond y byddent yn cael asesiad risg fel y byddai pobl a oedd wedi dod drwy'r Porth.

Gofynnodd yr Aelodau sut mae tenantiaid ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael eu rheoli ac fe'u cynghorwyd bod angen perthynas â'r Heddlu, Iechyd yr Amgylchedd a rhannu gwybodaeth yn arbennig ar gyfer y rheini ag anghenion cymhleth. Yr oedd hefyd yn bwysig deall lle y mae'r niwed wedi'i achosi, mabwysiadu agwedd fwy cyfannol at gyfiawnder adferol; hefyd yn ceisio cynllunio nifer o faterion megis nifer y lleoliadau ac ati, ac maent yn gweithio'n agos gyda'r Cyngor ar hyn. Ychwanegwyd bod hefyd dimau ataliol arbenigol, a chyflogi mwy o bobl sydd wedi bod yn weithwyr cymorth, sydd â'r setiau sgiliau cywir.

Gofynnodd yr Aelodau a fyddai'r Cyngor yn gwthio'r Cymdeithasau Tai ar bwysigrwydd dyluniad da. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y Cymdeithasau Tai yn gweithio i gynllunio gofynion ansawdd a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, fel sefydliadau y maent yn dymuno i'w holl gartrefi newydd fod yn well na Redrow, er enghraifft. Mae cartrefi wedi'u hadeiladu i'r gofynion dylunio a thu hwnt i safonau megis safonau'r RNIB. Ychwanegwyd bod cynllunwyr y Cyngor yn gwthio'r Cymdeithasau Tai ar ddylunio sy'n hollol briodol, fel bod pwyslais ar wneud lle, gan sicrhau bod y datblygiadau yn y meysydd cywir; mae'r Adolygiad Tai Strategol yn cynnwys safonau dylunio.

Croesawodd y Cadeirydd Jas Bains o Hafod, Josh Dowdall o Taff Housing, Richard Mann a Victoria Miller o United Welsh ac Anne Hinchey o Wales & West a gwahoddod bob un ohonynt i wneud datganiad.

Dyweddodd Anne Hinchey fod Wales & West yn gweithio mewn 15 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, gyda chwarter ei eiddo, sef 3.5 mil eiddo, yng Nghaerdydd. Mae'n canfod bod y Cyngor yn broffesiynol, yn canolbwyntio ar gwsmeriaid, yn datrys problemau, yn anamddiffynnol ac yn gydweithredol. Ychwanegodd fod y ddealltwriaeth o rolau'r naill a'r llall, yn helpu ei gilydd i gyflawni nodau strategol ac yn anelu at ategu gweithgareddau ei gilydd; gan ychwanegu mai'r staff yn y Cyngor yw'r rhai mwyaf proffesiynol a threfnus ledled Cymru a bod cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru hefyd yn teimlo'r un fath.

Nododd Josh Dowdall fod gan Taff Housing 1.4 mil o gartrefi yng Nghaerdydd a pherthynas ragorol â'r cyngor a'i swyddogion ar faterion fel Tai yn Gyntaf, rheolaeth gyffredinol y rhestr aros gyffredin, credyd cynhwysol a thenantiaid agored i niwed a thaliadau tai disgresiynol. Yr her yw cadw pobl yn eu cartrefi a lleihau'r effaith ar gymunedau.

Dyweddodd Victoria Miller fod United Welsh yn adleisio'r sylwadau hyn ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd cyflogadwyedd a sgiliau a chael y cymysgedd cywir o ddeiliadaeth a chymunedau ar gyfer tenantiaethau cynaliadwy. Roedd heriau ynghylch Ffiniau Sirol ac roedd gweithio gyda phartneriaid yn hanfodol.

Dyweddodd Richard Mann fod y United Welsh yn datblygu 1700 o gartrefi newydd yng Nghaerdydd, ac un o'r rhesymau am eu llwyddiant oedd yr ymddiriedaeth gyda swyddogion y Cyngor sy'n eu galluogi i fod yn ystwyth ac i fanteisio ar lithriant a chyfleoedd pan fyddant yn codi. Ystyriai y byddai manteision i gynyddu deialogau gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.

Dyweddodd Jas Bains ei fod yn cefnogi sylwadau blaenorol a bod parch ar y ddwy ochr rhwng y Cymdeithasau Tai a'r Cyngor. Mae Cymdeithasau Tai yn gyfranwyr allweddol at Dai, Cymorth a Gofal ac maent yn gyfrifol am gymdeithas a'r economi ehangach. Ystyriodd rôl y Cymdeithasau Tai i ryw raddau yw llenwi'r bwlch a adawyd gan wasanaethau'r Cyngor. Gan fod angen rhoi sylw i anghenion cymhleth o'r fath yng nghymdeithas heddiw, mae angen cydweithio ac mae'r ffordd y mae'r Cyngor yn ymgysylltu â Chymdeithasau Tai i gyflawni yn hyn o beth yn allweddol.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau:

Holodd yr Aelodau am y Panel Gwahardd ac fe'u cynghorwyd mai un maes yn ymwneud â rheoli risg ydoedd, y byddai swyddogion dyrannu hefyd yn fan cyswllt o ran ffactorau risg; ceir system gyfeirio rhwng y Cyngor a'r Cymdeithasau Tai. Cynhelir archwiliadau, os daw unrhyw wybodaeth i law, cynhelir cyfarfodydd ac edrychir ar dystlythyrau a byddai asesiad yn cael ei wneud i weld a oedd y darpar denant yn barod i ddal tenantiaeth. Mae tenantiaethau â chymorth yn y 12 mis cyntaf os oes angen. Ychwanegwyd bod cymorth hefyd yn cael ei ddarparu cyn dechrau tenantiaeth gan ei bod yn bwysig cael y person cywir yn y cartref cywir ar yr adeg gywir; mae amser yn cael ei dreulio yn y pen blaen er mwyn cael gwared â phroblemau posibl.

Cyfeiriodd Aelodau at gyflwyniadau'r Cymdeithasau Tai a'r cyfeiriad at Gaerffili a gwerth am arian. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod enghraifft Caerffili yn ddiddorol, bod llawer o gyfalaf ganddynt ond bod angen y referniw ychwanegol arnynt, a'u bod wedi penderfynu gwneud pethau'n wahanol a deall y sbardunau a'r anghenion a newid y polisi o'i gwmpas. Roedd yn bwysig cael hyblygrwydd landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i wneud hyn. Roedd angen ystyried cartrefi gwag hefyd, nid datblygiadau newydd yn unig, roedd yn bwysig cael defnydd terfynol o gartrefi gwag; os yw Cymdeithasau Tai yn ddefnyddwyr terfynol gallant ddod ag eiddo gwag i ddefnydd, gan gyfuno pwerau i weithio gyda'i gilydd.

Gofynnodd Aelodau a oedd posibilrwydd y gallai'r Cymdeithasau Tai a'r Cyngor ddod yn gystadleuwyr os cymerir lleiniau i'w datblygu ac fe'u cynghorwyd mai'r pethau pwysig oedd y canlyniadau a bod angen i'r ddau weithio gyda'i gilydd.

Gofynnodd yr Aelodau lle gellid casglu adnoddau ar gyfer cymorth dwys a'u cynghorwyd y gallent ddod o nifer o leoedd, y byddai angen lobio a hefyd yr angen i fuddsoddi; staff arbenigol yn bwysig. Roedd yn gyfnod heriol i awdurdodau lleol ac roedd angen cynyddu adnoddau yn unol â hynny.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr Lynda Thorne, Jane Thomas a David Jacques. Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau:

Gofynnodd yr Aelodau sut yr oeddent yn teimlo am y sylwadau yr oeddent wedi'u clywed ar sut y gellid gwneud pethau'n wahanol. Roedd swyddogion yn falch o glywed sylwadau gan bartneriaid ac yn fodlon siarad â chydweithwyr cyfreithiol am eiriad adran 106 o'r cytundebau; redent hefyd yn hapus i siarad am y gwahanol fodelau cyflwyno.

Gofynnodd yr Aelodau am adborth ar sylwadau ynghylch cynllunio, cyfleoedd datblygu ac ychwanegu gwerth. Dywedodd swyddogion y gall cydweithredu ar ddatblygiadau mwy helpu hyfywedd a chynyddu cynaliadwyedd cymunedau. Roedd yn bwysig cael cymunedau cymysg cyson a bydd y Cyngor yn gweithio gyda Chymdeithasau Tai i'w darparu. Roedd swyddogion yn awyddus i archwilio ymhellach y gwaith yn ymwneud â chartrefi gwag. Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet at gost cyfalaf tir a bod gwerth y farchnad yn cael ei dalu i'r Gronfa Gyffredinol ond mae yna fantais o beidio â chystadlu am y tir hwnnw; mae angen Derbyniad Cyfalaf i gyflawni o ran yr Uchelgais Prifddinas.

Cyfeiriodd yr Aelodau at brotocol tir a gofynnwyd a oedd cyfle i ofyn i Gymdeithasau Tai gadw at Safonau Dylunio a Gwneud Lleoedd Caerdydd. Dywedodd swyddogion fod yna, a'u bod yn darparu cymorth strategol, eu bod yn cymryd rhan yn gynnar ac yn gallu dod â gweledigaeth gyffredin ar safonau dylunio; bydd gan gynllunwyr fewnbwn hefyd.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd cyfle i adolygu'r panel gwahardd o ran hyd, amseroedd, nifer y cyfarfodydd ac ati i'w wneud yn fwy penodol ac effeithiol. Dywedodd swyddogion y byddent yn siarad â'r rheolwyr, yn darparu gwybodaeth cyn y cyfarfodydd ac y byddai'r amser mewn cyfarfodydd wedyn yn fwy effeithlon.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y cymorth dwys a'r adnoddau yr oedd eu hangen a gofynnwyd a fyddai gweithio gyda'r gwasanaethau cymdeithasol yn helpu. Eglurodd swyddogion fod arian Cefnogi Pobl ar gael ar hyn o bryd ar gyfer llety â chymorth; roedd hyn dan fygythiad gan ei fod yn cael ei ddosbarthu ledled Cymru ac efallai y bydd Caerdydd yn cael llai. Efallai y bydd angen ad-drefnu gwasanaethau sy'n bodoli eisoes.

CYTUNWYD: bod y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn cyfleu sylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

7 : ADRODDIAD PERFFORMIAD CHWARTER 4 GWASANAETHAU CYMDEITHASOL I OEDOLION

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr eitem hon yn rhoi cyfle i'r Aelodau roi sylw i Adroddiad Perfformiad Chwarter 4 Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion.

Croesawyd y Cadeirydd y Cynghorydd Susan Elsmore (Aelod Cabinet – Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles), Claire Marchant (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol) a Louise Barry (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Oedolion) i'r cyfarfod.

Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i'r Aelod Cabinet wneud datganiad lle croesawodd y Cadeirydd newydd a diolchodd i'r Cynghorydd McGarry, y Cadeirydd a

oedd yn ymadael, am ei gwaith. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod hwn yn adroddiad cadarnhaol ond bod meysydd i weithio arnynt o hyd; bu llawer o weddnewid polisiâu wedi'i roi ar waith, ac yr oeddent yn elwa o ran canlyniadau i bobl. Roedd Grand Avenue bellach ar agor ac roedd yn enghraifft ardderchog o arfer gorau gydag adeilad a oedd wedi ennill gwobrau, mae'r rheolwyr a'r staff yno'n hapus ac mae pobl o'r gymuned leol yn ymgeisio am swyddi yno.

O ran oedi wrth drosglwyddo gofal, bu ychydig o gynnydd ond roedd yn dal yn is na chyfartaledd Cymru ac mae Caerdydd yn dal i arwain y ffordd. Roedd y bartneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd yn gadarnhaol, bu cynnydd yn nifer y bobl sy'n cymryd Taliadau Uniongyrchol ac sy'n cael cymorth i gomisiynu eu gwasanaethau eu hunain.

Ar ôl hynny, cafodd yr Aelodau gyflwyniad ar Berfformiad Chwarter 4 ac yna gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau os oedd ganddynt gwestiynau a sylwadau:

Gofynnodd yr Aelodau pam nad oedd targed yn cael ei osod yn erbyn bodlonrwydd, a dywedwyd wrthynt nad oes targed i Gymru Gyfan gan mai arolwg blynyddol ydyw sy'n cael ei ddychwelyd, y canlyniad oedd 80% o bobl yn fodlon ac y byddai dadansoddiad o'r data hwn.

Gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth am y tanwariant o £1.3 miliwn. Cynghorodd swyddogion fod hyn wedi digwydd o ganlyniad i gymysgedd o bethau gan gynnwys dull mwy seiliedig ar gryfder, ymyrraeth gynharach, bod angen i rai meysydd gael llai o ofal uwch, yn enwedig ym maes iechyd meddwl; cafwyd cyllid grant sylweddol hefyd ar gyfer pwysau'r gaeaf. Ystyriwyd ei bod yn sefyllfa eithriadol o dda i fod ynddi. Dywedodd yr Aelod Cabinet ei fod yn arwydd o'r ddisgyblaeth ariannol a oedd yn cael ei chyflawni yn y Gyfarwyddiaeth ar hyn o bryd.

Roedd yr Aelodau'n falch o weld adroddiad mor gadarnhaol, a'r gwelliannau sylweddol oedd wedi'u gwneud ac roeddent am longyfarch y staff.

Gofynnodd Aelodau a oedd recriwtio a chadw staff yn dal i fod yn broblem yn y Gyfarwyddiaeth, ac fe'u cynghorwyd mai'r prif fater oedd recriwtio ymarferwyr iechyd meddwl, ond roedd hwn yn fater cenedlaethol. Erbyn hyn, canolbwyntiwyd ar hyfforddi a chefnogi ein staff ein hunain i gael achrediad.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y cynnydd bach yn nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal a nodwyd bod hyn wedi digwydd yn y ddau chwarter diwethaf a gofynnwyd am ragor o wybodaeth am hyn. Dywedodd swyddogion eu bod yn darparu gwasanaethau ail-alluogi i fwy o bobl, eu bod yn cael mwy o bobl drwodd ac yn eu cynorthwyo gydag ymyriadau ail-alluogi a llai o ofal uwch. Maent yn gobeithio ehangu'r model derbyn.

Gofynnodd Aelodau a oedd perygl i'r adnoddau gael eu taenu'n rhy denau, dywedodd swyddogion eu bod am gael ecwiti a llai o risg o wanhau'r gwasanaeth, er mwyn rhoi cyfle i bawb gynnal a chadw eu hannibyniaeth. Roedd swyddogion o'r farn y gallent wneud y gwahaniaeth yn fwy clir yn yr ystadegau ac y byddent yn gwneud hyn yn yr adroddiadau wrth symud ymlaen.

Cyfeiriodd yr Aelodau at oedolion yn teimlo'n rhan o'u gofal a nodwyd y ffigwr nad oeddent yn teimlo'n fodlon. Dywedodd swyddogion bod ganddynt fwy o fanylion y tu ôl i'r ystadegau ac y gallent ddadansoddi hyn a dod yn ôl at y Pwyllgor.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet fod y cwynion yn isel iawn wrth edrych ar gwynion yn erbyn canmoliaeth.

Gofynnodd yr Aelodau faint o gwynion Cam 1 a oedd wedi'u derbyn a dywedodd swyddogion y byddai angen iddynt gael y wybodaeth hon a dod yn ôl at y Pwyllgor; mae'r dangosydd yn yr adroddiad yn dangos y cwynion sydd wedi'u datrys. Roedd aelodau o'r farn y byddai'n dda gweld y dadansoddiad ar gwynion megis y niferoedd a ddatryswyd, y nifer a symudwyd ymlaen, heb eu datrys.

Cyfeiriodd Aelodau at hyfforddiant i staff allweddol mewn gwaith Llys Gwarchod a dywedodd swyddogion y byddai hyn yn cael ei wneud ar gyfer y staff hyn beth bynnag, roedd mwy o achosion yn y Llys Gwarchod erbyn hyn nag o'r blaen ac roedd cydnabyddiaeth bod angen hyfforddi mwy o staff yn y maes hwn. Ychwanegodd swyddogion eu bod yn gwybod y rhesymau pam mae hyn wedi cynyddu ac weithiau yr Awdurdod Lleol sy'n cychwyn y camau gweithredu.

Holodd yr Aelodau ynghylch y cynnydd o ran gweithredu'r model gweithredu newydd. Dywedodd swyddogion eu bod wedi dod â'r cynllun gweithredu gerbron Pwyllgor blaenorol, mae'n cynnwys partneriaid, yr Hyb Diogelu Amlasiantaeth a gwaith ym maes diogelu. Ymrwymodd swyddogion i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am hyn i bwyllgor yn y dyfodol.

CYTUNWYD: bod y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn cyfleu sylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

8 : DATGANIAD GOHEBIAETH

Bu'r Aelodau'n ystyried gohebiaeth a anfonwyd ac a dderbyniwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor, a chafwyd y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw eitemau heb eu hateb.

PENDERFYNWYD: Nodi'r adroddiad.

9 : TREFNU RHAGLEN WAITH

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr eitem hon yn eu galluogi i ystyried y rhestr o ddyddiadau arfaethedig ar gyfer y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedau ac Oedolion, ystyried yr eitemau ar yr agenda ar gyfer y ddau gyfarfod nesaf yn olynol a chytuno ar ddull o raglennu gwaith eleni.

Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai cyfarfod Craffu ar y cyd rhwng Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedau ac Oedolion a'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc i ystyried adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ar 26 Mehefin 2019 am 4.30pm yn Ystafell Bwyllgor 4, Neuadd y Sir, Caerdydd.

Ystyriodd yr Aelodau ddyddiad cyfarfod y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedau ac Oedolion mis Hydref ac, o gofio mor agos at gyfarfod y Cabinet oedd, credid mai'r peth gorau fyddai symud cyfarfod y Pwyllgor Craffu ymlaen un wythnos i'r 2^{il} Hydref 2019.

Ystyriodd yr Aelodau mai'r dyddiad gorau ar gyfer cyfarfod mis Ionawr fyddai'r 8^{fed} Ionawr 2019.

Roedd yr Aelodau o'r farn ei bod yn well gadael y dyddiad Ebrill ar gyfer y Pwyllgor Craffu am y tro, trefnwyd y Cabinet ar gyfer dechrau mis Ebrill felly byddai Aelodau'n aros i weld pa eitemau a ddaeth ymlaen a phenderfynu ar ddyddiad yn ddiweddarach.

Bu'r Aelodau'n ystyried eitemau i'w hystyried yng nghyfarfodydd y Pwyllgor ym mis Gorffennaf a mis Medi a phenderfynwyd y gellid cyflwyno adroddiad Chwarter 4 fel Atodiad i Gynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth Pobl a Chymunedau.

O ran rhaglennu gwaith trafododd yr Aelodau'r dulliau gweithredu posibl ac roeddent o'r farn y byddai'n well cynnal cyfarfod o'r Fforwm ym mis Gorffennaf.

Roedd yr Aelodau yn fodlon ar Adroddiad Blynyddol 2018/19.

Trafododd aelodau'r Ymchwiliad Gorchwyl a Gorffen yn Nes at Gartref, a nodwyd y byddai angen i deitl yr ymchwiliad newid ac y gallai Aelodau'r grŵp Gorchwyl a Gorffen benderfynu ar y teitl newydd; cytunwyd hefyd ar Gylch Gorchwyl ac Aelodaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

Trafododd yr Aelodau'r adroddiad ar y Porth Pobl Sengl ac ystyriwyd y gallai Aelodau gyflwyno awgrymiadau ar gyfer argymhellion drwy e-bost ac y byddai pob aelod yn cytuno ar yr argymhellion. Awgrymwyd bod yr adroddiad yn cynnwys y cyfeiriad at y cyflwyniad ysgrifenedig a anfonwyd gan y cyn-gynghorydd, Eleanor Sanders ynglŷn â'r Banciau Bwyd.

10 : EITEMAU BRYD (OS OES RHAI)

Ni chafwyd unrhyw rai.

11 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Disgwylir i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedau ac Oedolion ddigwydd ar 4 Gorffennaf 2018 am 4.30 yn Ystafell Bwyllgor 4, Neuadd y Sir, Caerdydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.25 pm